# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 26 Mehefin 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Euryn Morris (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Kenneth Hughes Trefor Lloyd Hughes, MBE, Keith Roberts, Ieuan Williams.<br><br>Aelodau Lleyg: William Parry. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 5)<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Pennaeth Democratiaeth (DS) (ar gyfer eitem 6)<br>Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglenni Corfforaethol (GP)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Margaret M. Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai), Rachel Freitag (Rheolwr Archwilio Ariannol - Archwilio Cymru), Carwyn Rees (Rheolwr Archwilio perfformiad - Archwilio Cymru), Uwch Archwilydd (AL) (CSYM). |

---

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Paul Ellis i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyfeiriodd at farwolaeth Mrs Sharon Warnes ym mis Mai. Roedd yn aelod lleyg gwerthfawr a dywedodd y bydd colled ar ei hôl. Fe wnaeth hefyd gydnabod ymddiswyddiad Mr Michael Wilson, aelod lleyg arall sydd wedi camu i lawr yn sgil ymrwymiadau eraill a mynegodd ei ddiolch iddo am ei gyfraniad yn ystod ei gyfnod ar y pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â'r ddwy sedd wag, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y bydd trefniadau recriwtio'n cael eu rhoi ar waith.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd yr ymddiheuriadau a gyflwynwyd.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Fe wnaeth y Cynghorydd Euryn Morris ddatgan diddordeb personol yn unig yn gysylltiedig ag eitem 5 ar yr agenda gan ei fod wedi'i secondio i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Fe wnaeth y Cynghorydd Keith Roberts ddatgan diddordeb personol yn unig yn gysylltiedig ag eitem 6 ar yr agenda gan ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Panel Sgriwtini Addysg.

**3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 8 Mai 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi - cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth/Swyddog Adran 151 bod canllawiau polisi drafft cychwynnol ar y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) o fewn y Cyngor wedi cael eu cyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth ar 17 Mehefin 2025. Bydd y polisi'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru gan y Tîm Arweinyddiaeth.

**4 LOG GWEITHRDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, oedd yn cynnwys log gweithredu'r pwyllgor, i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar statws a chynnydd y camau a gytunwyd.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac adroddiad effaith Quod ar gyfer Ynys Môn wedi cael eu cwblhau ond nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi eto. Mae'r weithred wedi'i rhestru fel eitem 10 ar y log ac roedd y pwyllgor wedi gofyn i gael gweld yr wybodaeth yma. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wrthi'n ystyried y ffordd orau o gyfathrebu a rhannu'r adroddiadau hyn. Cadarnhaodd hefyd bod eitemau rhif 21, 22 a 24 ar y log wedi cael eu cwblhau.

**Penderfynwyd nodi'r camau a nodwyd ar y log gweithredu a chadarnhau fod y Pwyllgor yn hapus fod y camau wedi'u gweithredu'n foddhaol.**

**5 ENWEBU AELOD LLEYG I BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMU**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynglŷn ag enwebu aelod lleyg ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) i'w ystyried gan y pwyllgor.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod cynghorau cyfansoddol CBC Gogledd Cymru wedi cael cynnig enwebu aelod lleyg i wasanaethu ar ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Pe byddai mwy na thri enwebiad wedi dod i law yna byddai'r CBC wedi enwebu ar sail teilyngdod drwy broses ymgeisio ffurfiol. Fodd bynnag, dim ond tri o gynghorau cyfansoddol y Cydbwyllgor Corfforedig sydd wedi enwebu aelod lleyg, yn cynnwys Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn, a enwebodd diweddar Mrs Sharon Warnes. Yn sgil y swydd wag annisgwyl, mae'r pwyllgor wedi cael ei wahodd i ystyried enwebu aelod lleyg arall i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC. Bydd gwahoddiadau yn cael eu hymestyn i gynghorau cyfansoddol eraill petai dim enwebiad yn cael ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**Penderfynwyd enwebu Mr William Parry i wasanaethu fel aelod lleyg ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**.

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Sgriwtini a Throsolwg ar gyfer 2024/25 i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cynghorodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod cylch gorchwyl y pwyllgor yn nodi bod rhaid iddo adolygu trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Cyngor yn gysylltiedig â'i bartneriaethau neu drefniadau cydweithio sylweddol. Er mwyn cefnogi'r swyddogaeth hon, mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'n cael ei gyflwyno i ddarparu sicrwydd bod corff penodedig yn mynd ati'n rhagweithiol i graffu a derbyn sicrwydd o ran llywodraethu partneriaethau a threfniadau cydweithio sylweddol.

Nododd y Pennaeth Democratiaeth bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ogystal, er mwyn darparu sicrwydd ychwanegol. Amlygodd rannau penodol o'r adroddiad - tudalen 5, sy'n cynnwys rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a chrynodeb o waith y pwyllgor yn ystod 2024/25, a thudalen 15, sy'n nodi'r trefniadau presennol ar gyfer craffu ar bartneriaethau. Dros y deunaw mis diwethaf, gwnaed pob ymdrech i ailafael yn y gwaith o graffu ar bartneriaethau allanol wedi i'r pandemig darfu ar y gwaith hwn. Ceir enghreifftiau o'r gwaith hwn yn yr adroddiad. Mae'r gwaith o ymgysylltu â phartneriaid allanol yn mynd rhagddo ac mae cynlluniau ar y gweill i graffu ar waith Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

Codwyd y cwestiynau a ganlyn ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol Sgriwtini a Throsolwg gan aelodau'r pwyllgor -

- P'un a oes trefniadau yn eu lle i lenwi'r seddi cyfetholedig gwag ar y pwyllgorau sgriwtini, gan fod un wedi bod yn wag ers tro.
- Yn sgil llwyth gwaith trwm ac agendau llawn y pwyllgorau sgriwtini p'un a oes modd edrych ar faterion yn ddigon manwl.

Cadarnhaodd y Pennaeth Democratiaeth bod y broses i lenwi'r ddwy sedd rhiant lywodraethwr wedi bod yn llwyddiannus. Bydd yr aelodau newydd yn cael eu cadarnhau yng nghyfarfodydd y pwyllgorau ym mis Medi.

O ran llwyth gwaith y pwyllgorau sgriwtini, yr her yw cynnwys cymaint o bartneriaethau â phosib yn yr amser sydd ar gael, gan gydbwyso cynnwys agendâu i osgoi eu gorlwytho a sicrhau bod digon o amser i ofyn cwestiynau a chael trafodaeth ystyrlon. Er nad yw bob amser y bosib cael cydbwysedd, mae pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau hynny, ac mae gwersi'n cael eu dysgu o brofiad. Hefyd, mae camau wedi cael eu cymryd i gyfyngu nifer y partneriaethau ym mhob cyfarfod. Mae cyfarfod blynyddol wedi cael ei neilltuo i drafod y Bwrdd Iechyd, gan ei fod yn faes eang a phwysig. Bydd y dull hwn yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a chadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn sicrwydd bod trefniadau ar waith i graffu ar bartneriaethau a threfniadau cydweithio'r Cyngor a'u goruchwylio.**

## 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2024/25 i'w gymeradwyo gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2024/25 yn erbyn ei gylch gorchwyl.

Cynigodd y Cadeirydd bod yr adroddiad yn gofnod cynhwysfawr o'r modd y mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau yn 2024/25.

**Penderfynwyd cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2024/25 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 25 Medi 2025, yn amodol ar newid canran y cyfarfodydd a fynychwyd gan y Cynghorydd Trefor Llyod Hughes, MBE.**

## 8 ADODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2024/25 i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr adroddiad fel un o adroddiadau mwyaf allweddol y flwyddyn, gan roi ei barn ar briodoldeb ac effeithlonrwydd fframwaith lywodraethu'r Cyngor, sut mae'n rheoli risg a rheolaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd gan y Cyngor, yn ei barn hi, fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer y meysydd hyn yn ystod y deuddeg mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Er nad oedd yn credu bod unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro. Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon.

Nododd y Pennaeth Archwilio a Risg bod ei hasesiad yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, yn bennaf yr adolygiad o risgiau strategol y Cyngor. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cwrdd â'i nod, sef archwilio 80% o'r risgiau strategol coch ac ambr yn ystod cylch dwy flynedd gan adolygu wyth risg yn 2024/25 ynghyd â deuddeg maes allweddol arall o weithgareddau'r Cyngor. Cyflawnodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol bump o'i chwe tharged perfformiad blynyddol yn cynnwys adolygu risgiau strategol. Cydymffurfiodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ogystal, ac eithrio ym maes mapio sicrwydd. Ers 1 Ebrill 2025 mae'r PSIAS wedi cael eu disodli gan Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU (GIAS) sy'n berthnasol i sefydliadau llywodraeth leol yn cynnwys y Cyngor, o 2025/26 ymlaen.

Codwyd y cwestiynau a ganlyn yn gysylltiedig â'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol gan aelodau'r pwyllgor -

- Nododd y pwyllgor bod gan y Cyngor, ym marn y Pennaeth Archwilio a Risg, fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd bod pen draw i allu'r fframwaith hon ac mai'r rheolwyr sy'n bennaf gyfrifol am gynnal rheolaethau mewnol cadarn. Felly, mae effeithlonrwydd y system hon yn ddibynnol ar bobl yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol. O'r herwydd, awgrymwyd bod y sefydliad yn gadarn cyn belled nad oes unrhyw wendidau yn y gadwyn. Holwyd p'un a yw'r Pennaeth Archwilio a Risg yn hyderus bod y fframwaith yn gadarn ac yn gallu nodi gwendidau cyn unrhyw fethiant.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod ei barn yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys adolygu 80% o risgiau strategol y Cyngor. Yn amodol ar y gwelliannau a nodwyd, sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd, cadarnhaodd ei bod yn fodlon wrth ddarparu lefel resymol o sicrwydd ynglŷn â rheolaeth fewnol, llywodraethiant a fframwaith rheoli mewnol y Cyngor.

- Cyfeiriwyd at yr ail adolygiad Adennill y Dreth Gyngor, Ardrethi Annomestig a Mân Ddyledion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac at waith y Gwasanaeth Archwilio

Mewnol yn gysylltiedig â'r fenter twyll. Nodwyd bod aelodau'n ymwybodol bod unigolion yn osgoi talu'r premiwm ail gartrefi drwy honni mai eu hail gartref yw eu prif gartref. O ganlyniad, holodd y pwyllgor a oes modd i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal adolygiad i weld sut mae tystiolaeth ffug yn cael ei chyflwyno i osgoi talu ac argymell mesurau i gau unrhyw fylchau/meysydd gwan.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn adolygu'r maes hwn yn rheolaidd gan ddefnyddio'r wybodaeth a gyflwynir drwy'r offeryn adrodd am dwyll ar-lein. Mae hefyd yn cydweithio â'r Swyddog Cydymffurfiaeth Treth yn y Tîm Refeniw a Budd-daliadau i rannu gwybodaeth berthnasol er mwyn cynnal ymchwiliad pellach.

- Cyfeiriwyd at y sicrwydd cyfyngedig a roddwyd yn dilyn yr adolygiad o'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r sicrwydd cyfyngedig a roddwyd yn ystod yr adolygiad dilyn i fyny. Nodwyd bod y maes Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn tanberfformio'n gyson, a bod hyn wedi'i adlewyrchu yn y cerdyn sgorio chwarterol. Er bod camau gweithredu wedi cael eu cynnig i wella perfformiad y dangosydd hwn, awgrymwyd ei bod hi'n bwysig bod Archwilio Mewnol yn amlygu'r mater hwn yn ogystal.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg y bydd ail adolygiad dilyn i fyny o'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn cael ei gynnal yn ystod 2025/26 ac y bydd adroddiad y cael ei gyflwyno i'r pwyllgor.

**Ar ôl ystyried yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2024/25 a barn y Pennaeth Archwilio a Risg, penderfynwyd nodi'r canlynol -**

- **Y crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a'r sicrwydd a ddarparwyd**
- **Y farn gyffredinol, a**
- **Pherfformiad y gwasanaeth Archwilio Mewnol, yn benodol ei gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.**

## 9 SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a risg a oedd yn cynnwys y Siarter Archwilio Mewnol i'w adolygu a'i gymeradwyo gan y pwyllgor.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2025 wedi'i gwneud hi'n ofynnol adolygu dogfennau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i sicrhau cydymffurfiaeth. Tra bod Siarter Cyngor Sir Ynys Môn eisoes yn cydymffurfio'n fras â gofynion y fframwaith newydd, roedd rhai diwygiadau'n angenrheidiol fel bod y gofynion sydd wedi'u crynhoi ym mharagraff 1.5 yn yr adroddiad rhagarweiniol yn glir. Darparodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o'r prif adrannau yn y siarter diwygiedig gan bwysleisio'r mesurau diogelu sydd wedi'u nodi yn nhudalen 10 i gyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth neu wrthrychedd. Cynghorodd bod rhaid i'r Pwyllgor fod yn fodlon nad oes dim yn amharu ar wrthrychedd y Pennaeth Archwilio a Risg.

Nododd y pwyllgor bod lefelau staffio'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi gostwng i 2.8 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn 2024/25 o'i gymharu â tharged o 4.0 FTE yn 2023/24, ac er bod y gwasanaeth wedi cyflawni ei darged i adolygu 80% o'r risgiau strategol, roedd hyn yn is na'r 82% a gyflawnwyd y flwyddyn flaenorol. Holodd y pwyllgor p'un a oedd yr adnoddau presennol yn cyfyngu ar gapasiti'r gwasanaeth a pe gallai hynny effeithio ar wrthrychedd y gwaith archwilio.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg er bod nifer y gweithwyr FTE wedi lleihau, mae'r gyllideb yr un fath ac mae'n cael ei defnyddio i gomisiynu arbenigwyr pwnc allanol. Adroddodd bod ymarfer gwerth am arian wedi dangos bod y trefniant hwn yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chadarnhaodd bod ganddi ddigon o adnoddau i gwblhau'r gwaith angenrheidiol a darparu barn archwilio i'r pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol diwygiedig.**

**10 STRATEGAETH A CHYNLLUN BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2025/26**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys y Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 i'w ystyried gan y pwyllgor.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn Sector Cyhoeddus y DU yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Prif Weithrediaeth Archwilio sefydlu strategaeth seiliedig ar risg i benderfynu ar flaenoriaethau archwilio mewnol sy'n gyson ag amcanion y Cyngor.

Yn unol â'r GIAS, mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn egluro'i weledigaeth ym mharagraff 20 yn yr adroddiad sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r nodau yng Nghynllun y Cyngor. Mae cenhadaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol (paragraff 21 i 24) yn seiliedig ar y weledigaeth hon ac mae'n cael ei chefnogi gan dri amcan strategol sydd wedi'u nodi ym mharagraff 25. Cadarnhaodd mai blaenoriaethau'r cynllun strategol yn ystod 2025/26 yw parhau i fynd i'r afael â'r risgiau strategol, a chanolbwyntio ar y risgiau coch ac ambr cynhenid fel y nodir yn Atodiad B.  Bydd y gwaith archwilio TG hefyd yn parhau, ac yn cael ei gwblhau gan archwilwyr TG  allanol o Gyngor Salford.

Amlygodd y Pennaeth Archwilio a Risg fesurau perfformiad y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26, sydd wedi'u nodi yn y tabl ar dudalen 9 yn yr adroddiad. Mae 549 diwrnod ar gael i gyflawni'r rhaglen waith arfaethedig, yn cynnwys ymchwiliadau a darparu'r safbwynt sicrwydd blynyddol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg, yn ei barn hi, nad oes unrhyw gyfyngiad o ran cwmpas neu adnoddau a all effeithio ar y gwaith hwn.

Fe wnaeth aelodau'r pwyllgor drafod y materion a ganlyn wrth ystyried yr adroddiad -

- Nododd y pwyllgor bod un fenter o dan Amcan Strategol 2 yn ymwneud â gwella llythrennedd digidol archwilwyr i sicrhau eu bod yn gyfforddus yn defnyddio technoleg yn cynnwys Deallusrwydd Artiffisial (AI), i wella'r broses asesu risg, ansawdd archwiliadau ac adrodd yn fwy effeithlon. Nodwyd hefyd bod y gwasanaeth archwilio Mewnol yn bwriadu monitro'r gwaith o gyflwyno AI fel rhan o'i waith archwilio TG yn 2025/26. Cododd y pwyllgor gwestiynau ynglŷn â gwrthdaro posib rhwng buddiannau gan y gallai'r gwasanaeth Archwilio Mewnol  archwilio arferion yn gysylltiedig ag AI cyn i'r Cyngor gyflwyno canllawiau polisi ar ei ddefnyddio.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod y fenter yn gysylltiedig â defnydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol o AI i wella ei weithrediadau, yn benodol y cyfleoedd y gall AI eu cynnig o ran ymchwil, ymarferion cwmpasu a chasglu gwaith papur.  Mae AI eisoes yn cael ei ddefnyddio ym maes archwilio er mwyn gweinyddu'n effeithiol, ac mae'r gwasanaeth Archwilio mewnol yn bwriadu edrych ar hyn ymhellach yn unol â pholisi'r Cyngor unwaith y caiff ei sefydlu.

Codwyd cwestiwn ategol gan y pwyllgor ynglŷn â chywirdeb yr wybodaeth a gynhyrchir gan AI a rhagfarn bosib.  Yn niffyg canllawiau ffurfiol codwyd cwestiynau hefyd ynglŷn â gallu

staff ar draws y sefydliad i asesu'r wybodaeth hon yn feirniadol.  Holodd y pwyllgor ynglŷn a phwy sy'n gyfrifol am benderfynu beth sy'n cael ei ystyried yn ddefnydd derbyniol.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod swyddogion yn defnyddio AI i wella eu gwybodaeth a llywio'u barn, a'u bod yn dod i'w casgliadau eu hunain.   Y prif bryder yw pan fydd gwybodaeth heb ei dilysu sydd wedi cael ei chynhyrchu gan AI ar gael yn gyhoeddus neu'n cael ei chyflwyno fel safbwynt swyddogol y Cyngor.   Mae gan swyddogion sy'n defnyddio AI gyfrifoldeb dros ddilysu'r wybodaeth a gynhyrchir drwy AI, ac i sicrhau bod yr wybodaeth yn gyson â'u harbenigedd a'u barn broffesiynol.  Dyma'r broblem y mae'r canllawiau polisi drafft sy'n cael eu hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth ar hyn o bryd yn ceisio mynd i'r afael ag o, sef diffinio pryd y gellir defnyddio AI i wella gwybodaeth swyddogion a llunio barn a phryd mae'n briodol defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chynhyrchu drwy AI i greu dogfennau megis crynodebau o gyfarfodydd sy'n cael eu cynnwys mewn cofnodion cyhoeddus maes o law.

- Holodd y pwyllgor p'un a fydd yr adolygiad caffael allanol yn disodli unrhyw agwedd ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn y maes hwn.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod trefniadau caffael y Cyngor yn rhan o raglen wella dwy flynedd ar hyn o bryd, sy'n cael ei harwain gan STAR Procurement (sef gwasanaeth caffael sy'n cael ei rannu gan awdurdodau lleol yng ngogledd-orllewin Lloegr).  Mae'r Rheolwr Caffael dros dro yn goruchwylio'r gwaith o weithredu'r cynllun gwella ac mae'n gweithio â STAR i fynd i'r afael a'r camau a nodwyd.  Yn sgil y gwaith hwn, mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi penderfynu gohirio ei adolygiad hyd nes y bydd y rhaglen wella wedi cael ei chwblhau.  Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod y rhaglen yn cynnwys rheoli cyflenwyr TG sydd â graddfa sicrwydd cyfyngedig yn dilyn adolygiad dilyn i fyny diweddar.

Ymatebodd y Pennaeth Archwilio a Risg i gwestiynau ynglyn â'r fenter i beilota monitro parhaus mewn un maes risg newydd o leiaf gan ddefnyddio dadansoddeg data, ac eglurodd bod y meysydd risg yn gysylltiedig â'r gyflogres a chredydwyr.  Aeth ymlaen i egluro bod yr adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor y cyfeirir ato ym mharagraff 56 yn yr adroddiad yn ymwneud ag adroddiad Archwilio Cymru  ym mis Tachwedd 2023 - Defnyddio gwybodaeth perfformiad: Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth a Chanlyniadau a ddaeth i'r casgliad fod gwybodaeth gyfyngedig ynghylch perfformiad wedi'i darparu i uwch arweinyddion er mwyn eu galluogi i ddeall safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth.  Dywedodd y byddai'n anfon copi o'r adroddiad i'r aelod a gododd y cwestiynau.

**Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio -**

- **Gymeradwyo'r Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 a chadarnhau ei fod yn fodlon ei fod yn darparu'r sicrwydd gofynnol i'r Cyngor.**
- **Cadarnhau bod y pwyllgor yn fodlon â gofynion y gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran adnoddau a defnyddio ffynonellau sicrwydd eraill.**
- **Cadarnhau bod y pwyllgor yn fodlon nad oes cwmpas amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.**

## 11 ARCHWILIO ALLANOL: CYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan Archwilio Mewnol a oedd yn nodi ei gynllun archwilio ar gyfer blwyddyn archwilio 2024/25 i'w ystyried gan y pwyllgor.

Rhoddodd Rachel Freitag, Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru drosolwg o'r archwiliad arfaethedig o ddatganiadau ariannol ar gyfer 2024/25 yn cynnwys lefelau perthnasedd, risgiau archwilio ariannol sylweddol a'r ymateb arfaethedig. Amlygwyd yr amserlen archwilio a chyflawniadau gyda'r nod o allu cyhoeddi barn yr archwilydd ac ardystio'r cyfrifon erbyn diwedd Hydref 2025, fis yn gynharach na'r flwyddyn flaenorol fel rhan o'r uchelgais i adfer yr amserlen archwilio a oedd yn bodoli cyn y pandemig.

Amlinellodd Carwyn Rees, Rheolwr Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru y gwaith archwilio perfformiad arfaethedig sy'n canolbwyntio ar adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau gwerth am arian a chydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Eglurodd sail y ffioedd archwilio ar gyfer y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad ar gyfer 2024/25.

Codwyd y materion uchod gan aelodau'r pwyllgor yn gysylltiedig â'r cynllun archwilio allanol -

- Roedd y ffi archwilio yn cael ei ystyried yn uchel a awgrymwyd y gellid dod o hyd i bris mwy cystadleuol pe byddai'r Cyngor yn cael mynd allan i'r farchnad. Argymhellwyd bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Aelod Portffolio Cyllid yn trafod y ffi gyda'r archwilwyr.
- Holodd aelodau'r pwyllgor p'un a oes cydweithrediad rhwng archwilio mewnol ac allanol wrth ddatblygu eu cynlluniau unigol a nodwyd bod dyblygu'n bosib yn gysylltiedig â TG.
- Holwyd ynglyn â'r gwaith archwilio perfformiad o ran cydymffurfiaeth y Cyngor â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nodwyd bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi mynegi ei siomedigaeth gyda'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru o dan y Ddeddf ac mae wedi gofyn am adolygiad gan Lywodraeth Cymru. Awgrymwyd felly bod y gwaith hwn yn gynamserol ac y dylid ei ohirio hyd nes y bydd yr adolygiad hwn wedi cael ei gynnal.
- Mynegwyd pryder hefyd ynglyn â chosbau Llywodraeth Cymru ar gyfer methu â chwrdd â'r targedau ailgylchu. Amlygwyd y dylai cynghorau sydd wedi dioddef blynyddoedd o lymder allu cadw eu hadnoddau yn enwedig, fel yn achos y Cyngor hwn, os yw eu cyfraddau ailgylchu'n agos at y targed. Awgrymwyd y dylai'r aelod portffolio ystyried codi'r mater gyda Llywodraeth Cymru.
- Nododd y pwyllgor nad oedd unrhyw un o'r asesiadau yn gysylltiedig â gwerth am arian yn mesur cynhyrchiant.

Fe wnaeth yr archwilwyr ymateb i'r materion a godwyd fel a ganlyn -

- Bod cyfle i roi barn ar y ffi archwilio a'r gwaith cysylltiedig yn flynyddol. Mae Archwilio Cymru'n gosod ei ffioedd yn unol â ffioedd ei gymheiriaid yn Lloegr lle mae diffyg capasiti yn y farchnad wedi gohirio'r gwaith o archwilio cyfrifon ac mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y ffioedd. Yn y gorffennol mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi comisiynu gwaith i gwmnïau sector preifat. Mae'r ffioedd yn cael eu goruchwylio gan fwrdd er mwyn rhoi sicrwydd i'r Archwilydd Cyffredinol bod y gwaith yn sicrhau gwerth am arian.
- Cadarnhawyd bod archwilio allanol wedi ymgynghori ag adran TG y Cyngor ynglyn â'r gwaith arfaethedig. Mae'n rhaid i rai elfennau yn gysylltiedig â'r gwaith archwilio ariannol, megis archwilio systemau, gael eu cynnal yn flynyddol yn unol â'r safonau archwilio. Cynhaliwyd cyfarfod gyda swyddogion TG i drafod y pwysau o ran yr amserlen ac i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynllunio fel bod yr amserlen yn gyfleus i bawb. Gwnaed pob ymdrech i gwrdd ag anghenion y Cyngor yn gysylltiedig â'r amserlen a chwmpas y gwaith.

- Bod y crynodeb o'r adolygiad arfaethedig yn gysylltiedig ag ailgylchu a rheoli gwastraff o fewn y Cyngor yn nodi'r ffactorau a all gynyddu'r risg o fethu â sicrhau gwerth am arian. Mae'n bosib y bydd yr archwiliad manwl, unwaith y bydd wedi'i gwblhau, yn nodi canlyniadau positif yn gysylltiedig â gwasanaethau ailgylchu a rheoli gwastraff y Cyngor.
- Bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymri) 2015 yn mynnu bod yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu cyrff cyhoeddus o leiaf unwaith o fewn cyfnod penodol er mwyn asesu eu cydymffurfiaeth â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd yr archwilwyr hefyd yn ystyried p'un yw'r Cyngor yn rhoi dull hir dymor ac ataliol ar waith wrth asesu ei drefniadau gwerth am arian.
- Mai cyfrifoldeb yr archwilwyr yw sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian, yn benodol ei fod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd gyda'r adnoddau a ddyrannwyd ac yn nodi unrhyw rwystrau. Er nad yw cynhyrchiant yn rhan o'r fframwaith gwerth am arian ar hyn o bryd, os ydi'r pwyllgor o'r farn ei fod yn fesurydd pwysig, efallai byddai'n well ei fesur drwy'r cerdyn sgorio cytbwys.

**Penderfynwyd nodi cynllun archwilio manwl yr archwilwyr allanol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2025.**

## 12 ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys y blaen raglen waith ar gyfer 2025/26 i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg un newid i'r rhaglen waith sef ychwanegu adroddiad ar "Themâu i'w Hystyried gan y Panel Asesu Perfformiad" i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Blaen Raglen Waith arfaethedig ar gyfer 2025/26 yn cwrdd â chyfrifoldebau'r pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.**

**Mr Dilwyn Evans**
**Cadeirydd**